

Cymwysterau Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Cyd-Bwyllgor Trafod (JNC¹) Lefelau 2 a 3 a sut maent yn cyd-fynd â chymwysterau Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Proffesiynol JNC yng Nghymru

Cymwysterau JNC yw:

Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Cynorthwyol JNC

- **Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Cymru)/(Lloegr)**

Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid JNC:

- **Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Cymru)/(Lloegr)**
- **Diploma Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Cymru)/(Lloegr)**

Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC:

- **Gradd Bagloriaeth Anrhydedd Lefel 6**
- **Diploma Ôl-raddedig Lefel 7**

Cefndir

Mae'r papur hwn yn cynnwys holl gymwysterau gwaith ieuenctid JNC gyda chanolbwynt penodol ar y cymwysterau ar gyfer Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid.

Mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddysgu am eu hunain, eraill a chymdeithas, drwy weithgareddau addysgol anffurfiol sy'n cyfuno mwynhad, her a dysgu. Mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio fel arfer gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae eu gwaith yn ceisio hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc a'u galluogi nhw i gael llai, dylanwad a lle yn eu cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol. (NOS, 2019)

Cafodd y gyfres newydd o gymwysterau gwaith ieuenctid Lefel 2 a Lefel 3, ei ddatblygu'n gyntaf yn 2015, ac wedi cael eu hadnewyddu ac ar gael o 1 Ebrill 2020. Fel o'r blaen, mae'r rhai ar lefel Tystysgrif yn rhoi cydnabyddiaeth Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid JNC a Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Cynorthwyol JNC i'r rhai sy'n eu cwblhau.

Mae'r datblygiad wedi cael ei arwain gan y Pwyllgor ETS NYA mewn partneriaeth â ETS Cymru, ac wedi cynnwys cyfarfodydd gyda Sefydliadau/Cyrff Gwobrwy o Loegr a Chymru ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori i gynnwys y maes gwaith ieuenctid.

¹ Mae ETS Cymru ac NYA ETS Committee England yn cefnogi'r cymwysterau ar ran Cyd-Bwyllgor Trafod (JNC) ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Chymunedol. Mae'r JNC hefyd yn cytuno ar y graddfeydd cyflog cenedlaethol, telerau ac amodau a lefelau cymwysterau ar gyfer gweithwyr ieuenctid ar draws Lloegr a Chymru. Mae cydnabyddiaeth JNC yn golygu bod y cymwysterau yn ddilys ac yn cael eu cydnabod ar draws y DU ac Iwerddon ac yn galluogi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg Cymru.

Fel o'r blaen, bydd **un** set o gymwysterau ar Lefel 2 a Lefel 3, a gefnogir gan bwyllgorau ETS Cymru a Lloegr ar ran y JNC. Cafodd holl Sefydliadau/Cyrff Gwobrwy eu gwahodd i fynychu ond mae'r defnydd o gymwysterau ac unedau wedi'i gyfyngu i'r Sefydliadau/Cyrff Gwobrwy a oedd yn rhan o'u datblygu. Mae'r Sefydliadau/Cyrff Gwobrwy canlynol wedi'u hawdurdodi i ddarparu'r gyfres o gymwysterau:

- Agored Cymru
- AIM Qualifications and Assessment Group
- The NOCN Group
- Open College Network West Midlands
- Open Awards
- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Gwobrau Grŵp Sgiliau ac Addysg (SEG)

Dim ond Gwobrau Grŵp Sgiliau ac Addysg (SEG) ac Agored Cymru sy'n cynnig y cyrsiau yng Nghymru.

Wrth ddarparu'r cymwysterau hyn, mae'r Sefydliadau/Cyrff Gwobrwy yn cytuno i fodloni gofynion y Strategaeth Asesu sy'n disgrifio sut ddylai'r gyfres gael ei ddarparu, gan gynnwys y cymwysterau angenrheidiol sydd angen gan y rhai sy'n tiwtora, asesu ac yn sicrhau ansawdd.

Mae'r cymwysterau diwygiedig yn cynnwys unedau craidd a dewisol yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer Gwaith Ieuenctid 2019 ac adborth o ymgynghoriad er mwyn eu gwneud yn addas i'r diben ac yn bodloni anghenion cyd-destunau polisi gwahanol a lleoliadau.

Mae'r papur briffio yn cynnwys:

- fframweithiau cymwysterau
- strwythur y cyfres o gymwysterau
- teitlau'r unedau gorfodol a dewisol o fewn y cymwysterau
- pa ddysgeidiaeth sy'n cael ei gynnwys o fewn y cymwysterau gwahanol
- sut maent yn cyd-fynd â llwybr cydlynol ehangach cymwysterau gwaith ieuenctid

- y dyletswyddau allweddol a ddisgwyllir gan JNC ar wahanol lefelau'r cymhwyster
- rhagor o wybodaeth.

Fframweithiau Cymwysterau – anhawster a hyd y cymwysterau

Mae fframweithiau cymwysterau cenedlaethol yn systemau cydnabyddedig wedi'u dylunio i ddarparu dull hyblyg a syml ar gyfer cymharu cymwysterau.

Enw'r fframwaith yng Nghymru yw Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) ac mae cymwysterau'n cael eu rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru.

Ei enw yn Lloegr yw'r 'Regulated Qualifications Framework (RQF) ac mae cymwysterau yn y fframwaith hwn yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual.

Mae gan yr unedau a chymwysterau **lefel a chredydau**, sy'n cyd-fynd â'u fframwaith cenedlaethol. Y **lefel** = **her** neu ba mor anodd yw'r wobr (yn amrywio o lefelau mynediad ac yna lefelau o 1-8).

- Mae Cyfanswm yr Amser Cymhwyso a'r **Credydau** = **hyd amser cyfartalog** y bydd y dysgwr yn ei gymryd i gwblhau uned neu gymhwyster (1 credyd =10 awr mewn egwyddor).


Gall gymwysterau Addysg Uwch ddefnyddio'r termau canlynol yn eu teitlau, fel mynegiant o'u maint:

- Gwobr – 1-12 Credyd (10 – 120 awr fel cyfanswm amser cymhwyso)
- Tystysgrif – 13-36 Credyd (121 – 369 awr fel cyfanswm amser cymhwyso)
- Diploma – 37+ credyd (370 awr neu fwy fel cyfanswm amser cymhwyso)


(yn Addysg Uwch, mae'r termau Tystysgrif a Diploma yn cael eu defnyddio mewn ffordd wahanol)

Ar gyfer cymwysterau Gwaith Ieuenctid JNC, gwerth y credydau ac oriau cyfanswm amser cymhwyso yw:

- **Tystysgrif Lefel 2 Ymarfer Gwaith Ieuenctid – 26 Credyd, 260 awr**
- **Tystysgrif Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid – 27 Credyd, 270 awr**
- **Diploma Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid – 37 Credyd, 370 awr**



Strwythur Cyfres Cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuencid Lefel 2 a Lefel 3



Egwyddorion sylfaenol y datblygiad

Yr egwyddorion allweddol sy'n sylfaen i ddatblygiad y gyfres wreiddiol o gymwysterau yn 2014 oedd i fynd i'r afael â phryderon o ran dyblygu dysgeidiaeth o Lefel 2 i Lefel 3 gan sicrhau bod y rhai a gwblhaodd y Lefel 3 yn unig ddim yn colli allan ar ddysgeidiaeth hanfodol ar Lefel 2. Mae'r egwyddorion hyn wedi cael eu cynnal wrth ddiwygio ac nid yw'r strwythur wedi newid.

Bydd rhaid i holl ddysgwyr gwblhau 11 o Gredydau ar Lefel 2 cyn cwblhau credydau ychwanegol i gael cymhwyster Tystysgrif Lefel 2 a Lefel 3. Mae cwblhau'r 11 Credyd yn galluogi dysgwyr nad ydynt yn cyflawni'r Dystysgrif i adael gyda chymhwyster llai – Gwobr Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuencid. Mae hefyd yn galluogi i asesiad gael ei gyflawni am addasrwydd dysgwr i gwblhau Tystysgrif Lefel 2 neu Lefel 3.

Er y gall ddysgwyr gwblhau Gwobr Lefel 2 a pheidio mynd ymlaen i gwblhau Tystysgrifau, bydd cydnabyddiaeth Gweithiwr Cefnogi Ieuencid JNC ond yn cael ei ddarparu ar ôl cwblhau Tystysgrif Lefel 3.

Tra bod yr unedau gorfodol yn cynnwys sgiliau gwaith ieuencid craidd, mae amrywiaeth o unedau dewisol wedi cael eu cynnwys i sicrhau ystod eang o leoliadau ac arbenigedd o fewn gwaith ieuencid. Gall ddysgwyr sy'n mynd ymlaen i gwblhau Diploma Lefel 3 arbenigo mewn pynciau sy'n berthnasol i'w gwaith. Gall unedau dewisol ychwanegol hefyd gael eu hychwanegu yn ôl yr angen.

Mae'r term 'lleoliad gwaith ieuencid' wedi cael ei ddefnyddio drwy gydol y cymwysterau er mwyn gwahaniaethau'r dysgeidiaeth o 'waith cyffredinol gyda phobl ifanc' a all gael ei ddefnyddio gan ystod o ddisgyblaethau eraill. Gall 'leoliadau gwaith ieuencid' gynnwys lleoliadau traddodiadol (megis mynediad agored neu glybiau) ond gall hefyd gynnwys ystod eang o leoliadau (megis ysgolion neu iechyd) lle gall weithwyr ieuencid gael eu cyflogi a lle maent yn seilio ei gwaith ar egwyddorion, gwerthoedd a dulliau gwaith ieuencid.

Bydd y cymwysterau ar gael yn Saesneg ac yn y Gymraeg.

Teitlau Unedau Cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuencid Lefel 2 a Lefel 3

Unedau Gorfodol Tystysgrif Lefel 2:

- Theori Gwaith Ieuencid **4 Credyd**
- Diogelu mewn Lleoliad Gwaith Ieuencid **3 Credyd**
- Datblygiad Pobl Ifanc **2 Credyd**
- Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Phobl Ifanc **2 Credyd**

Unedau Gorfodol Lefel 2 yn y Dystysgrif Lefel 3:

- Theori Gwaith Ieuencid **4 Credyd**
- Diogelu mewn Lleoliad Gwaith Ieuencid **3 Credyd**
- Datblygiad Pobl Ifanc **2 Credyd**
- Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Phobl Ifanc **2 Credyd**

Unedau Gorfodol Ychwanegol Tystysgrif Lefel 2:

- Gwaith Grŵp o fewn Lleoliad Gwaith Ieuencid **2 Credyd**
- Gweithio gydag Ymddygiad sy'n Heriol mewn Lleoliad Gwaith Ieuencid **2 Credyd**
- Ymarfer Seiliedig ar Waith mewn Gwaith Ieuencid **6 Credyd**

Unedau Gorfodol Ychwanegol Tystysgrif Lefel 3:

- Gwaith Grŵp o fewn Lleoliad Gwaith Ieuencid **4 Credyd**
- Gweithio gydag Ymddygiad sy'n Heriol mewn Lleoliad Gwaith Ieuencid **2 Credyd**
- Ymarfer Seiliedig ar Waith mewn Gwaith Ieuencid **6 Credyd**

Unedau Dewisol Tystysgrif Lefel 2:

- Egwyddorion a gwerthoedd allweddol o weithio gyda phobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau **3 Credyd**
- Cefnogi pobl ifanc gydag anableddau a/neu anghenion dysgu amrywiol mewn lleoliad gwaith ieuencid **3 Credyd**
- Cefnogi adloniant a hamdden pobl ifanc mewn lleoliad gwaith ieuencid **3 Credyd**
- Ymarfer atal gwahaniaethu mewn gwaith ieuencid **3 Credyd**
- Archwilio Datblygiad Ysbrydol, Credoau a Gwerthoedd mewn lleoliad Gwaith Ieuencid **3 Credyd**
- Gwaith Ieuencid mewn Lleoliadau a Mannau Digidol **2 Credyd**
- Dulliau Gwaith Ieuencid yn seiliedig ar Drawma **3 Credyd**
- Gweithredu Cymdeithasol **2 Credyd**

Unedau Dewisol Diploma / Tystysgrif Lefel 3:

- Gwaith Ieuencid Neilltuol ac Allanol **6 Credyd**
- Gwaith Ieuencid mewn Lleoliadau a Mannau Digidol **2 Credyd**
- Egwyddorion o gefnogi Pobl Ifanc o ran perthnasau ac iechyd rhywiol **2 Credyd**
- Atgyfeiriadau a chyfeiriadau mewn lleoliadau gwaith ieuencid **2 Credyd**
- Gweithredu Cymdeithasol **3 Credyd**
- Hwyluso teithiau a theithiau preswyl gwaith ieuencid **4 Credyd**
- Archwilio Datblygiad Ysbrydol, Credoau a Gwerthoedd mewn lleoliad Gwaith Ieuencid **3 Credyd**
- Deall sut i reoli staff mewn lleoliad gwaith ieuencid **3 Credyd**
- Rheoli perfformiad mewn lleoliad gwaith ieuencid **3 Credyd**
- Rheoli cyllideb mewn lleoliad gwaith ieuencid **2 Credyd**
- Gwaith ieuencid yn seiliedig ar ganlyniadau effeithiol **3 Credyd**
- Ymarfer atal gwahaniaethu mewn gwaith ieuencid **3 Credyd**
- Goruchwyliaeth mewn cyd-destun gwaith ieuencid **3 Credyd**
- Hwyluso dysgu a datblygiad pobl ifanc drwy fentora **3 Credyd**
- Cefnogi pobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches **3 Credyd**
- Cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial dysgu **3 Credyd**
- Cefnogi pobl ifanc sydd dan ofal neu'n gadael gofal **3 Credyd**
- Cefnogi trawsnewidiad pobl ifanc i annibyniaeth **2 Credyd**
- Cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant neu sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol **2 Credyd**
- Gweithio gyda phobl ifanc i leihau cyfranogiad mewn ac effaith trais, gweithgareddau troseddol a cham-fanteisio ymysg ieuencid **3 Credyd**
- Deall sut all gwaith ieuencid gefnogi iechyd meddwl a lles pobl ifanc **2 Credyd**
- Deall sut all gwaith ieuencid gefnogi pobl ifanc sy'n profi tlodi **3 Credyd**
- Deall sut all gwaith ieuencid gefnogi pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau **3 Credyd**
- Deall sut mae gwaith ieuencid yn cefnogi pobl ifanc sy'n lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsryweddol + **2 Credits**
- Dulliau Gwaith Ieuencid yn seiliedig ar Drawma **4 Credyd**
- Cyfranogiad pobl ifanc mewn gwaith ieuencid **2 Credyd**
- Cefnogi pobl ifanc gydag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol o fewn lleoliad gwaith ieuencid **3 Credyd**

Disgrifiad a chynnwys y cymwysterau gwahanol

Cymhwyster	Trosolwg	Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys
Gwobr Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuenctid 16 oed+	Cyflwyniad i weithio gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuenctid	Byddwch yn dysgu: <ul style="list-style-type: none"> • Diben allweddol gwaith ieuenctid • Egwyddorion a gwerthoedd allweddol gwaith ieuenctid • Lle mae gwaith ieuenctid yn digwydd • Sut i ddiogelu pobl ifanc mewn gwaith ieuenctid • Sut mae pobl ifanc yn datblygu • Rôl gwaith ieuenctid wrth gefnogi datblygiad pobl ifanc i fod yn oedolion • Deall hawliau • Ymgysylltu a chyfathrebu gyda phobl ifanc.
Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid 16 oed+	Yn eich paratoi chi i gynorthwyo gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuenctid.	Byddwch yn dysgu yn ôl Gwobr Lefel 2 yn ogystal â: <ul style="list-style-type: none"> • Strategaethau ar gyfer cynorthwyo gyda gwaith grŵp effeithiol • Sut i adnabod gwrthdaro ac ymddygiad heriol gan bobl ifanc • Sut i gynorthwyo gydag ymarferion yn y gwaith o dan oruchwyliaeth (lleiafrif o 40 awr o ymarfer) • Sut i adlewyrchu ar eich ymarfer • Testunau sy'n ymwneud yn benodol â gwaith ieuenctid yn ôl yr opsiynau a ddewiswyd.
Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid 18 oed+	Yn eich paratoi chi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuenctid.	Byddwch yn dysgu yn ôl Gwobr Lefel 2 yn ogystal â: <ul style="list-style-type: none"> • Strategaethau ar gyfer arwain gwaith grŵp effeithiol • Sut i weithio gyda phobl ifanc i reoli gwrthdaro ac ymddygiad heriol • Sut i arwain gydag ymarferion yn y gwaith o dan oruchwyliaeth (lleiafrif o 60 awr o ymarfer) • Sut i adlewyrchu ar eich ymarfer ar lefel briodol • Testunau sy'n ymwneud yn benodol â gwaith ieuenctid yn ôl yr opsiynau a ddewiswyd. •
Diploma Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid 18 oed+	Yn eich paratoi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuenctid ac arbenigo mewn pynciau sy'n berthnasol i chi neu eich gwaith.	Byddwch yn dysgu'r uchod, yn ogystal â: <ul style="list-style-type: none"> • Testunau penodol ychwanegol yn unol â'ch diddordebau neu anghenion gwaith.

Cynnydd: Sut mae Cymwysterau Lefel 2 a 3 yn cyd-fynd â Llwybr Cydlynol Cymru o Gymwysterau Gwaith Ieuenctid Cydnabyddedig

Cymhwyster	Credydau	Cydnabyddiaeth JNC / Cofrestrriad CGA	Sefydliadau sy'n cynnig y cymhwyster yng Nghymru
Gwobr Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuenctid 16 oed+	Mae'r cymhwyster yn cynnwys 11 credyd felly bydd angen i chi astudio am oddeutu 110 o oriau i gyflawni'r Wobr mewn Egwyddorion Gwaith Ieuenctid.	Na	
Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid 16 oed+	Mae'r cymhwyster yn cynnwys 26 credyd felly bydd angen i chi astudio am oddeutu 260 o oriau i gyflawni'r Dystysgrif. Rhaid cwblhau Gwobr Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuenctid yn llwyddiannus cyn i chi fynd ymlaen i gwblhau'r Dystysgrif Lefel 2.	Ydi - Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Cynorthwyol JNC a Chofrestrriad CGA	<ul style="list-style-type: none"> • Addysg Oedolion Cymru/Adult Learning Wales • Awdurdodau lleol unigol •
Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid 16 oed+	Mae'r cymhwyster yn cynnwys 27 credyd felly bydd angen i chi astudio am oddeutu 270 o oriau i gyflawni'r Dystysgrif. Rhaid cwblhau Gwobr Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuenctid yn llwyddiannus cyn i chi fynd ymlaen i gwblhau'r Dystysgrif Lefel 3.	Ydi - Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid JNC a Chofrestrriad CGA	
Diploma Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid 18 oed+	Mae'r cymhwyster yn cynnwys 37 credyd felly bydd angen i chi astudio am oddeutu 370 o oriau i gyflawni'r Diploma. Rhaid cwblhau Gwobr Lefel 3 yn llwyddiannus cyn i chi fynd ymlaen i gwblhau Diploma Lefel 3.	Ydi - Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid JNC ar ôl cwblhau Tystysgrif L3 a Chofrestrriad CGA	
Lefel 6 Gradd BA(Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymuned	Mae'r cymhwyster Addysg Uwch yn cynnwys 360 credyd dros dri lefel. Lefel 4: Tystysgrif Addysg Uwch 120 Credyd Lefel 5: Diploma Addysg Uwch / Gradd Sylfaen 120 Credyd Lefel 6: Gradd BA (Anrh) 120 Credyd	Ydi - Gweithiwr Ieuenctid Cymwys Proffesiynol JNC ar ôl cwblhau gradd anrhydedd llawn a Chofrestrriad CGA	<ul style="list-style-type: none"> • Prifysgol Metropolitan Caerdydd • Prifysgol Glyndŵr Wrecsam • Prifysgol De Cymru, Casnewydd • Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin
Lefel 7 Diploma Ôl-raddedig / MA Gwaith Ieuenctid a Chymunedol	Mae'r cymhwyster Addysg Uwch yn cynnwys 120 credyd ar Lefel 7. Gallwch fynd ymlaen i gwblhau gradd Meistr (cyfanswm o 180 o gredydau) ond enillir cymhwyster proffesiynol ar lefel PGDip.	Ydi - Gweithiwr Ieuenctid Cymwys Proffesiynol JNC a Chofrestrriad CGA	<ul style="list-style-type: none"> • Prifysgol Metropolitan Caerdydd • Prifysgol Glyndŵr Wrecsam • Prifysgol De Cymru, Casnewydd • Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin

Dyletswyddau Allweddol o fewn Cymwysterau Gwaith Ieuentid Cydnabyddedig¹

Cymhwyster	Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn?	Dyletswyddau Allweddol JNC
Gwobr Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuentid 16 oed+	Yn eich cyflwyno i egwyddorion o weithio gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuentid. Mae'n addas ar eich cyfer chi os ydych: <ul style="list-style-type: none"> yn dymuno symud ymlaen i Dystysgrif/Diploma Lefel 2 neu Lefel 3 angen cefnogaeth gyda'ch dysgu heb unrhyw gymhwyster ffurfiol yn dymuno dychwelyd i ddysgu eisiau gweithio gyda phobl ifanc yn y dyfodol yn 16 oed neu hŷn. 	Dim ar y lefel hwn. Mae Gwobr Lefel 2 mewn Egwyddorion Gwaith Ieuentid yn addas fel cyflwyniad i waith ieuentid. Mae'r Wobr Lefel 2 yn cael ei gynnwys yn y Dystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid a Tystysgrif / Diploma Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid a gydnabyddir gan JNC.
Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid 16 oed+	Yn eich paratoi chi i gynorthwyo gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuentid. Mae'n addas ar eich cyfer chi os: <ul style="list-style-type: none"> ydych angen cefnogaeth gyda'ch dysgu nad ydych yn barod i astudio ar Lefel 3 eto heb unrhyw gymhwyster ffurfiol yn dymuno dychwelyd i ddysgu hoffech gynorthwyo i ddarparu gwaith gyda phobl ifanc yn 16 oed neu hŷn. 	Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid yw'r cymhwyster sydd ei angen i'r rhai sy'n dymuno gweithio fel Gweithiwr Cefnogi Ieuentid Cynorthwyol JNC cymwys. Mae hwn ar gyfer gweithwyr sy'n cynorthwyo i ddarparu gwaith ieuentid gweithredol ac sy'n cyflawni dyletswyddau o dan gyfarwyddyd, lle mae menter ac gweithredu annibynnol wedi'i gyfyngu. Mae esiamplau o ddyletswyddau allweddol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i ddatblygu eu haddysg cymdeithasol drwy ddarparu rhaglenni o weithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau; Sefydlu cyswllt gydag ac arwain pobl ifanc fel rhan o raglenni lleol; Cynorthwyo i ddarparu cyngor a chefnogaeth i grwpiau cymunedol lleol ac asiantaethau; Cynorthwyo i ysgogi, cadw, datblygu a chefnogi staff a gwirfoddolwyr; Cynorthwyo gyda datblygu gwasanaeth drwy gyfrannu tuag at gynllunio, darparu a monitro darpariaethau lleol; Gweinyddiaeth dydd i ddydd er mwyn sicrhau rhediad esmwyth y gwasanaethau; Gweithredu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth.
Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid 18 oed+	Yn eich paratoi chi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuentid. Mae'n addas ar eich cyfer chi os: <ul style="list-style-type: none"> nad ydych angen llawer o gefnogaeth gyda'ch dysgu nad ydych yn barod eto neu os nad oes gennych brofiad perthnasol digonol ac ymarfer ar gyfer astudio ar lefel Addysg Uwch mewn prifysgol 	Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid yw'r cymhwyster sydd ei angen i'r rhai sy'n dymuno gweithio fel Gweithiwr Cefnogi Ieuentid JNC cymwys. Mae hwn ar gyfer gweithwyr sy'n darparu gwaith ieuentid gweithredol ac sy'n cyflawni dyletswyddau ar liwt eu hunain neu sydd â chyfrifoldeb goruchwyliol am brosiectau bychain, megis clybiau unwaith yr wythnos. Bydd gweithwyr gyda'r cyfrifoldebau hyn yn derbyn canllawiau arweinyddiaeth a gweithredol gan weithwyr ieuentid proffesiynol cymwys. Mae esiamplau o ddyletswyddau allweddol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i ddatblygu eu haddysg cymdeithasol drwy ddarparu rhaglenni o weithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau;

¹ Ar gyfer Tystysgrif Lefel 2 ac uwch, mae dyletswyddau'n cael eu cymryd gan y Cyd-Bwyllgor Trafod (JNC) ar gyfer Cytundeb Gwaith Ieuentid a Chymunedol 2016

Cymhwyster	Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn?	Dyletswyddau Allweddol JNC
	<ul style="list-style-type: none"> • ydych yn dymuno symud ymlaen i raglen gwaith ieuencid Addysg Uwch • nad oes gennych unrhyw gymhwyster ffurfiol • ydych yn dymuno dychwelyd i ddysgu • hoffech gynorthwyo i ddarparu gwaith gyda phobl ifanc • yn 18 oed neu hŷn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu cyswllt gydag ac arwain pobl ifanc fel rhan o raglenni lleol; • Darparu cyngor a chefnogaeth i grwpiau cymunedol lleol ac asiantaethau; • Cynorthwyo i ysgogi, cadw, datblygu a chefnogi staff a gwirfoddolwyr; • Cyfrannu tuag at ddatblygu gwasanaeth drwy gynllunio, darparu a monitro darpariaethau lleol; • Gweithredu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth; • Sefydlu a chynnal perthnasoedd gyda phobl ifanc, grwpiau cymunedol ac asiantaethau; • Cynnal ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gan gynnwys rhoi cyfarwyddyd i weithwyr eraill; • Cyfrifoldeb is-reolwyr ar gyfer gweithwyr a gwirfoddolwyr, gan gynnwys recriwtio, datblygu a disgyblu staff; • Dechrau a monitro datblygiadau i'r gwasanaeth, yn arbennig gydag asiantaethau eraill; • Perfformio a sicrhau dyletswyddau gweinyddol (gan gynnwys rheoli'r gyllideb, cadw cofnodion ac iechyd a diogelwch).
Diploma Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuencid 18 oed+	<p>Yn eich paratoi i arwain gwaith gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith ieuencid ac arbenigo mewn pynciau sy'n berthnasol i chi neu eich gwaith. Fel yr uchod, ac</p> <ul style="list-style-type: none"> • os hoffech arwain yn y ddarpariaeth o waith gyda phobl ifanc ac arbenigo mewn meysydd penodol 	<p>Fel yr uchod.</p>
Lefel 6 Gradd BA(Anrh) Gwaith Ieuencid a Chymunedol	<p>Yn eich paratoi i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu, dylunio a datblygu gwaith ieuencid. Hefyd, mae disgwyl i chi gymryd cyfrifoldebau rheoli gweithredol. Mae'n addas ar eich cyfer chi os:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oes gennych Dystysgrif neu Ddiploma Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuencid • oes gennych gymwysterau lefel A neu brofiad perthnasol 	<p>Gradd BA(Anrh) yw'r cymhwyster sydd ei angen i'r rhai sy'n dymuno gweithio fel Gweithiwr Ieuencid a Chymunedol Proffesiynol JNC Cymwys. Mae hwn ar gyfer gweithwyr sydd â chyfrifoldeb am ddarparu, dylunio a datblygu gwaith ieuencid. Disgwylir i weithwyr ieuencid a chymunedol proffesiynol cymwys gymryd cyfrifoldebau strategol a rheoli gweithredol.</p> <p>Esiamplau a Dyletswyddau Allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Perfformio holl ddyletswyddau ar gyfer gweithwyr cefnogi ieuencid a chymunedol; • Rheoli a datblygu amrywiaeth o wasanaethau; • Rheoli a datblygu staff a chyfleusterau; • Gweithio gydag asiantaethau eraill i ddatblygu gwasanaethau ar draws y gymuned; • Dylunio, arwain a gweithredu cwricwlwm gwaith ieuencid; • Arwain ar ddatblygu a gweithredu prosiect.
Lefel 7 Diploma Ôl-raddedig Gwaith Ieuencid a Chymunedol	<p>Yn eich paratoi i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu, dylunio a datblygu gwaith ieuencid. Hefyd, mae disgwyl i chi gymryd cyfrifoldebau rheoli gweithredol. Mae'n addas ar eich cyfer chi os:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oes gennych radd perthnasol • oes gennych brofiad o waith ieuencid 	<p>Fel yr uchod.</p>

Cyngor y Gweithlu Addysg

Ers 2017 mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i gofrestru Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid a Gweithwyr Ieuenctid ynghyd ag Athrawon, Cynorthwyr Addysgu a gweithwyr mewn lleoliadau addysgol eraill. Mae deiliaid cymwysterau Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid a Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol a gydnabyddir gan JNC, yn gymwys i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ac ar gyfer cyflogwyr penodol, megis yr awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrrff gwirfoddol, mae hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Ailenwi'r Wobr Lefel 2

Cafodd y **Wobr Ymarfer Gwaith Ieuenctid** Lefel 2 ei ailenwi i **Wobr Egwyddorion Gwaith Ieuenctid** Lefel 2 yn y gyfres diwygiedig er mwyn bodloni gofynion Ofqaul/Cymwysterau Cymru bod rhaid i deitl cymhwyster adlewyrchu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a gaiff ei asesu fel rhan o'r cymhwyster. Roedd gan y Wobr wreiddiol 'Ymarfer' yn y teitl ond gan fod y cymhwyster hwn a'r newydd ddim yn cynnwys gofynion ymarfer dan oruchwyliaeth, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol hyn, newidiwyd y teitl i adlewyrchu'r cynnwys sy'n seiliedig yn bennaf ar wybodaeth fel cymhwyster cyflwyniad i waith ieuenctid. Mae'r tri cymhwyster arall yn y gyfred (Tystysgrif Lefel 2, Tystysgrif Lefel 3, Diploma Lefel 3) yn cynnwys unedau ymarfer.

Cynnydd ar gyfer deiliaid Gwobr Ymarfer Gwaith Ieuenctid Lefel 2 2015-20

Mae trefniadau yn eu lle i fodloni gofynion rheoliadol, fel bod deiliaid yr hen Wobr Ymarfer Gwaith Ieuenctid Lefel 2 yn gallu gwneud cynnydd i'r Dystysgrif Lefel 2 neu Lefel 3 newydd mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid.

Prentisiaethau

Defnyddiwyd cymwysterau Tystysgrifau Lefel 2 a Lefel 3 2015-20 yn y Fframwaith Prentisiaeth Gwaith Ieuenctid. Mae dewisiadau yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd ar sut all y cymwysterau newydd gael eu defnyddio ar gyfer prentisiaethau yn y dyfodol.

Rhagor o wybodaeth:

- Gellir dod o hyd i fanylion llawn holl unedau Lefel 2 a Lefel 3 gan y Cyrff Gwobrwyo [Agored Cymru](#) a [SEG](#).
- Mae manylion darparwyr hyfforddi perthnasol ar gael ar [wefan Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru](#).
- Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol 2019 ar gael [yma](#).
- Cofrestru gyda [Chyngor y Gweithlu Addysg](#).